




Be wnelo cartwm ar ras gwyllt â phry'cop meddech? Wel, Richard Gallon dynnodd lun y cartwm (Aled Jones dynnodd y llall). Richard sydd yn rhoi enw ar y pryfed cop sydd yn cyrraedd Oriol gwefan Llên Natur. Benyw *Araneus diadematus* yw hwn. Diolch am bob gwasanaeth Richard.

Pigion o'r papurau bro - Yr haul yn cyrraedd Nant Peris



Nant Peris a Gwasg Gwynedd (cartref yr Eco) dan blanced wen, Ionawr 1979.

Mae gennym ni [drigolion Nant Peris wrth droed y Wyddfa] un diwrnod arbennig yn y flwyddyn pan fo pawb yn edrych ymlaen at weld yr haul. Y dyddiad pwysig hwnnw yw Ionawr 13, sef dydd Mercher nesaf. Am chwe wythnos hir cyn y 13, nid yw pelydrau'r haul yn cyffwrdd â'r pentref. Y rheswm am hyn yw fod y "Grib Goch" a'r Wyddfa yn rhwystro iddo wenu arnom. Byddwn yn edrych yn hiraethus iawn arno'n dod i lawr yn araf o ris i ris ar lethrau'r 'Elidir', 'Y Garn' a'r 'Glyder'. Daw heibio'r 'Ceunant' a'r 'Fron' i lawr at 'Ty Isaf'; ond cyn cyffwrdd â'r pentref mae'n troi yn ei ôl a dringo i gopaon 'Y Garn' a'r 'Glyder' ac ô'r golwg. Pob blwyddyn ar y 13 o Ionawr gwelwn yr haul yn agosáu fel pob diwrnod gaeafol clir arall, ond y tro yma nid yw'n troi'n ôl o Ty Isaf....mae'n cario ymlaen ac yn tywynnu ar groes fach ar dŵr yr eglwys...dim ond am

ryw ddau funud cyn cychwyn yn ôl ar ei hynt i gopaon y mynyddoedd uchel. Er mai ond prin ddau funud yr arhosa'r haul ar dŵr Eglwys hynafol Sant Peris, mae'n ddiwrnod pwysig iawn o Ionawr yn rhoi gobaith fod dyddiau heulog hir yr haf yn agosau a thywyllwch duaf y gaeaf wedi mynd – ninnau fel paganiaid Affrica yn llawenhau a gorfeleddu...a bron yn addoli'r haul.

(J E Ellis (Perisfab) Codwyd o argraffiad yn Eco'r Wyddfa rhif 44, Ionawr 1980)

Pa gopaon mae haul y prynhawn yn goleuo (saethau)? Mi af am dro i'r Nant ar y 13eg Ionawr a cheisio gweld drostof fy hun Gol.

Trownt ar Lyn y Gadair

Dydd Mercher 7fed Rhagfyr 2011: Roedd hi'n fore braf a heulog ac wrth deithio roedd hi'n hawdd gweld pob hafn a chraig ar lethrau'r mynyddoedd. Roedd hi'n fore hynod o glir. Roedd yr hin yn fain ac roedd y gwynt yn chwythu'n gryf mewn manau agored. Roedd hi ychydig wedi hanner dydd erbyn hyn. Roedd Meira, fy ngwraig a minnau yn teithio yn y car rhwng Beddgelert a Chaernarfon ar ffordd yr A4085. Mae'r ffordd yn dringo o Feddgelert hyd at ble dowch i olwg Llyn y Gadair, sydd ar ochr chwith y ffordd. Wedi cyrraedd at y man hwn, cefais gip ar rywbeth y gwyddwn ar unwaith ei fod yn rhywbeth allan o'r cyffredin. Amneidiais ar Meira i edrych i gyfeiriad y llyn. Roedd yr hyn a welsom yn rhyfeddol. Yr hyn dynodd fy llygad gyntaf oedd swm enfawr o ddŵr yn codi o'r llyn. Codai'r dŵr gan ddisgyn a tharo yn erbyn y lan fel anferth o don. Disgynnodd llawer o'r dŵr yn ôl i'r llyn ac ar hyd y lan agosaf at y ffordd. Chwyrliodd y gweddill fel cawod fawr o law, i ffordd o'r llyn gan droelli draw tuag at y ffordd. Yno chwipiwyd ychwaneg o ddŵr i'r awyr. (O weld wedyn roedd ffrwd fechan yn rhedeg o dan y ffordd i gyfeiriad y llyn.) Roedd y pellter rhyngom ag ef bellach yn llai na chanllath. Gallem weld yn glir weiriach, dail a phob math o dyfiant yn chwyrlio'n uchel a bellach wedi croesi'r ffordd. Yno yn y cae, roedd nifer helaeth o ddefaid, ac mewn amrantiad roeddynt yn chwalu i bob cyfeiriad. Yn amlwg yn dianc am eu heinioes, yn sicr wedi eu dychryn yn arw. Digwyddodd y cyfan mewn ychydig eiliadau. Roeddem yn sylweddoli ein bod wedi bod yn dyst i drowynt nerthol. Diflanodd dros erchwyn bryn tu draw i'r defaid a phopeth fel cynt, fel pe nai bai dim wedi digwydd. O gofio lle roedden ni, allwn i ddim llai na meddwl fod cyswllt â'r llwynog hwnnw yn y soned ac mae'r geiriau "syfrdan y safodd yntau" a "digwyddodd, darfu megis seren wib" yn dod i'r cof. A rhag i rywun ofyn, oedd, roedd gen i ffôn allai fod wedi cadw'r cyfan ar gof a chadw, ond mi ddigwyddodd mor ddisymwth fel na chefais amser hyd oed i feddwl am gamera heb sôn am feddwl ei weithio. Er i mi stopio'r car i weld yr olygfa ryfeddol hon doedwn i ddim digon effro i agor ffenestr y car i wrando chwaith. Ond mae'r llun yn dal gennym ni ein dau a fyddwn ni ddim yn anghofio am drowynt Llyn y Gadair yn fuan iawn

Diolch i Celt Roberts, Talsarnau am rhoi'r sgŵp hwn i Llên Natur

Drifl yr ych a gwawn y gweunydd



Yn Mwletin 21 <http://www.llennatur.com/files/u1/Cylchgrawn21.pdf> cafwyd yr olygfa hon o Foel Fodiard, ger Henllan gan Alun Williams. Dywed Alun mai gwlith ar we pry cop ydyw. Gelwir gwe fel hyn yn 'Drifl yr ych' pan mae yn gorchuddio'r cae i gyd.

Meddai Gwyn Jones, Ceredigion: "Cofio am 'yn Wncwl Glyn, oedd yn son am 'ddrifl yr ych'. Meddyliodd Gwyn (yn gall iawn!) "y dylen edrych yn Geiriadur Prifysgol Cymru, a wir, mae fe 'na - gossamer, yn ôl y geiriadur. Mi ges dipyn o sioc, am y rheswm mai 'gwawn' glywais i mam yn gweud. Wi'n treial cael wrthi ai gair o lyfr neu un a glywodd ar lafar mamgu (chwaer Wncwl Glyn) neu dadcu oedd 'gwawn'. Mi fyddai'n ddiddorol i wybod dosbarthaid daearyddol y termau (ac unrhyw dermau eraill am yr un ffenomen). Yn ôl

mam, 'gwawn' ar lafar - yn treial deall p'un ai yr un peth neu dau beth tebyg yyn nhw. Newydd gofio bod enw arall i'r gwe pry cop, sef 'Gwawn y Gweunydd'. Ar ôl siarad a Mam, doedd hi ERIOED wedi clywed 'drifl yr ych', er mai ei hewyrth oedd 'yn ffynhonnell i, a'r ddau wedi'u geni a'u magu ym mhlwy Llanddewibrefil!"

Gwyn Jones

Wel, beth amdani ddarllenwyr y Bwletin; cofnodwch (Gol.)

Llong lo Pontllyfni

2 vessel ashore from [Malta ?], nigh pont llifni one [both wedi ei groesi allan] got off, With 'or [=her?] cargo, the [other?] got off by Discharging or [=her?] load of Coals Cofnod diddorol o 1842. Dyna ysgrifennodd John Thorman, Cipar Glynllifon yn 1842 yn ei lyfr "memorandums" (fel y gwelwch, dydi ei lawysgrifen ddim yn eglur iawn ar adegau!). Diolch i berchen y ddogfen wreiddiol, Idwal E Symonds, CBE am ganiatad i ddyfynnu o'r ddogfen. Cymerir mai am y traeth o dan Pontllyfni

1842	1842	
Feb 5 Sat	Mr Phillips Lady's maid Discharged	mae Thorman
March 20 Sun	2 vessel a shore from Mattha, nigh pont llifni	- yn sôn - go brin
	one got off, with or cargo, the got off by Dis-	- y bu llongau yn
	- Charing or load of coals	gallu dod i fyny'r
		afon i Bontllyfni
		yr adeg honno?
		Meddai Robin
		E v a n s
		(arbenigwr
		morol): "Debyg
		nad Malta oedd
		y gair ond beth
		am dderbyn y
29 Juis	for Thorman apply'd & got the Gamekeeper	

cofnod fel ag y mae am eiliad - llong o Malta, wedi hwylio i Lerpwl yn cludo rhywbeth - yna wedi clywed am lwyth o lo o'r Parlwr Du - yn bwriadu mynd a fo l rywle ar y ffordd yn ol i Malta. Posibl? Un peth sy'n sicr - fyswn i byth yn gallu bod yn fiction writer!" Tynnodd Ifor Williams fy sylw at y ffaith nad oedd y glo o angenrheidrwydd wedi dod o Malta (os Malta oedd y gair) a dyna'r cyfnod y codwyd odyddau calch ar yr arfordir er mwyn gwella cynnyrch amaethyddol. Bu yna odyddau galch yng nghyffiniau Pontllyfni ar un adeg a byddai angen glo i danio'r odyddau. Mae 'na odyddau calch bob rhyw filltir, neu lai, ar hyd yr arfordir yma, sef Pontllyfni, Aberdesach, Ty'n Coed (Clynnog), Traeth Mawr Clynnog, Gyrn Goch, Trefor - rhai bychan ar gyfer calch i'r tir a rhai mwy (neu e'lla bod y Stad yn codi adeiladau fferm ayyb yn yr ardal). Mae IES hefyd yn amheus iddynt gario glo o Malta. Meddai Idwal, "roedd yn arferiad i'r llongau ddod a glo i'r lan gyda'r llanw; defnyddid yr un egwyddor i gario tywod o'r sandbank ar y Fenai - byddent yn llwytho'r tywod i'r llong gyda berfa pan oedd y llanw allan, a'r llong yn gorwedd ar y sandbank, a dod a fo i'r lan ger Bont'raber i'w werthu". Meddai Brenda Jones, perthynas i Idwal, "tybed a ddaeth y ddwy long aground yn hytrach nag ashore...one got off with her cargo, the [other] got off by discharging her load of coal? Dyma Marian Elias yn dyfynnu'r hanesydd lleol Mair Eluned Pritchard: "Iard lo oedd Yr Iard, Aberdesach, a deuai pobl a'u troliau yno ar drai i lwytho glo. Yn Y Borth yr oedd yr odydd galch (ger Ty'n-coed) - ond lle sal i lanio ydoedd. Yn Y Wig, Pontllyfni, yr oedd odydd galch arall ar glwt glas yno. Ond erbyn hyn meddiannwyd y clwt glas a hyd yn oed lanw-mor a chwalwyd olion yr odydd galch - bu brwydr barhaus rhwng y perchennog honedig, Cyngor Dwyfor a'r Cyngor Plwy am flynyddoedd yn y 1980au". Magwyd Hugh Evans, tad Mair Eluned, yn Swan ac roedd o'n cofio glo yn dod i "Rabar" (Aberdesach) hyd tua 1900-03. Erbyn hynny y trê'n oedd yn dod â glo i'r parthau hyn - i Lanwnda yr âi pobl Clynnog ac roedd trê'n ym Mhen-y-groes. Roedd y llongau a'r trenau yn cydoesi am gyfnod - sef hyd tua 1903. Roedd Sion Dafydd y Crydd yn byw yn Tŷ-rhos ger Coch-y-big a dyma ei sylw ar araith fudr y llongwyr: "Roeddwn i lawr yn Rabar ac mi welish i fflama gleision yn dwad o'u cega nhw."

Diolch i'r holl a ennyd uchod a gyfrannodd i'r drafodaeth hon

Reset Siantarela



Yn unol a'r addewid dyma gyfieithiad Cymraeg o'r reset Llydewig yn y rhifyn diwethaf 'Mat Abominabl':


Y reset: twymo mymryn o olew a menyn ar waelod y badell ffrio - ffrio un neu ddau o slots wedi eu sgleisio a garllig wedi ei falu nes iddynt fod yn feddal - ychwanegu'r siantarels (wedi eu glanhau gyda chylllell a'u sgleisio ar eu hyd yn fras) - ffrio am chwarter awr gan droi'r cwbl yn achlysurol a chan gadw'r caead arnynt am gyfnod i ffrwtian - codi'r caead tua'r diwedd, ychwanegu persli, a gadael i'r dŵr o'r ffwng aneddu a'r hylif dewychu - gweini gyda bara ffres...mmmmm!



Ennill tamaid, Arennig Mehefin 1818

Ar ôl y rhyfel mawr efo Napoleon Bonaparte daeth amser caled iawn...blwyddyn o faldod cyffredinol ar yr yd a bara iach yn beth dieithr yn y wlad...ond drwy Ragluniaeth dirion...daeth y cen gwyn sydd yn tyfu ar gerrig yn nwydd i fasnachu ynddo. Cesglid ef oddiar y cerrig, a gwerthid ef i fasnachwyr am geiniog y pwys..a mwy pan y byddai galwad amdano...tri o blant y teulu yn ei gasglu bob dydd sych a theg...casglai y tri rhyngddynt oddeutu 18 pwys ...troes lluoedd allan i'r ffriddoedd i'w gasglu ac yr oedd y casglwyr gyda eu cynion yn hel y cen yn llawer cynt nag y tyfai ar y cerrig...ac felly aeth y nwydd yn brin a bu'n rhaid myned yn bellach, bellach yn barhaus...mynd mor bell a'r Arennig i hel y cen.....Cychwynnent gyda chodiad yr haul, a'u tamaid bwyd gyda hwynt - gweithient yn ddiwyd a chaled...parhausant i deithio felly ar hyd mis Mai a hanner Mehefin. Ond aeth y teithio hwnnw... yn flin ganddynt; a rhyw fore teg yng nghanol Mehefin 1818, cymerasant gyda hwy ddigon o luniaeth i barhau dros ddau ddydd, ac aethant ymaith i gefn yr Arennig, lle buont yn cenna nes aeth yn hwyr. Yna aethant at dy o'r enw Amnoedd Wen a gofynasant a allent gael llety am noswaith....

Adgofion Maboed ap Vychan



Crotelle (Parmelia saxatilis - saeth melyn) oedd enw'r hen lifwyr gwlan ar hwn yn y Saesneg. Ai hwn oedd cen du'r cerrig Thomas Pennant (dyma ddywedodd am bobl *Havodtai* Llanberis yn ei gyfrol *A Tour of Wales 1783*: "They manufacture their own cloaths; and dye their cloths with Cenn du y Cerrig, or *Lichen Omphaloides*; and another Cenn, the *Lichen Parietinus*; native dyes, collected from the rocks". Tybed pa fath o gen oedd "cen gwyn" ap Fychan

Pôs y mis

Ni chawsom ateb cywir i bôs mis diwethaf ond diolch i chi am gynig. Onibai mod i wedi cael gwybod o flaen llaw fasa gan y golygydd ddim clem beth oedd y teclyn chwaith. A son am clem - **dyna'r pôs y mis hwn...Beth oedd CLEM?** Mi fydd llun yn esbonio'r cwbl mis nesaf onibai eich bod chi'n achub y blaen. Erbyn 15 Ionawr, fel arfer, trwy'r bwtwm Cysylltwch ac os byddwch yn gywir bydd tocyn llyfr gwerth £10 i chi.



Ac ateb y pos diwethaf meddech chi? Wel, nid math o gun (dyna gafwyd) ond math o **ENGAN** neu einion Llydawig. Mae'r pig yn mynd i ddaear galed hyd at y "dyrnfol" (y 4 cylch) ac yna gosodwyd min pladur ar y llafr "cunaidd" a tharo â morthwyl. Modd felly i hogi pladur trwy daro yn hytrach na llifo sydd yma. Oes rhywun yn gwybod beth yw enw'r teclyn yn y Llydaweg?

Diolch i Dominig Kervegant

Gogledd, de, chwith a chyfiawn..mwy

Ac o ran y dwylo [gweler Bwletin45-46] - onid 'right' yw'r Saesneg, '*rechts*' yn Almaeneg a '*derecho*', '*droite*' ac yn y blaen mewn ieithoedd Romawns - y cywir, y cyfreithlon. A sinister wrth gwrs o sinistra, y chwith.

Gwyn Jones

Dwi'n cofio rhyfeddu at lun y tynnodd fy rhieni yn nyddiau cynnar y *Package Holiday* o bydew Rhufeinig yn yr Eidal. Roedd yr ochr lle byddai pobl yn sadio eu hunain â'u llaw ar ymyl y pydew wedi gwisgo llawer mwy ar yr ochr dde nag ar yr ochr chwith. Gellid casglu o hynny mai llaw dde oedd y rhan fwyaf o'r trigolion. Petawn i wedi cadw'r llun gallaswn fesur faint mwy o drael oedd ar y dde - ac felly canran y o bobl llaw chwith


Perl o Sir Fôn

Cofnododd Owain Griffiths o Langristiolus y sylw anfarwol hwn pan yn ei arddgau ar y 19 Tachwedd 1940. Yn amlwg doedd ganddo fawr o amynedd efo pa bynnag achlysur oedd yn mynd rhagddo!

Gyrrodd Owen Capel Farm yma eiriau i mi yrru y salmon i lawr iddo i wneud ryw stwns neu rywbeth. Cafodd Mrs Jones Siop bwys o siwgr imi er ei bod wedi gwneud heb beth ei hun (meddai hi)...Yna gwneud sandwiches - plastro salmon a'u torri a Richard Fferam yn torri brechdan.

drwy garedigrwydd gweddw OG, Mair Griffith

Beth ar y ddaear...?




Tynnodd Valmai Williams y llun hwn gyda'i ffon symudol yn yr hydref, 2011 yn ardal ei chartref yn y Garreg Fawr, Waunfawr. Dyma ddywedodd ein harbenigwr Andrew Graham:

No doubt about it being a Myxomycete plasmodium but I wouldn't care to guess at the species without letting it mature. (The most familiar yellow plasmodium in conifer woods is Fuligo septica but I'm not at all sure that's what this is). Getting the plasmodium to mature is not easy. They are so sensitive to any change in conditions that just putting them in a pot and hoping for the best often (or usually) ends in failure. I think it's best to leave them alone and go back a day or two later, if that's feasible. (They don't move very fast). We have had a wonderful period for fruiting Myxomycetes; I suppose due to the mild weather. Unfortunately, it seems to be largely over now.

Efallai y bydd cerddwyr Cymdeithas Edward Llwyd yn cofio Alwyn, gŵr Valmai, yn caniatáu i ni ddefnyddio ei lwybr mewn tywydd garw ar yr amod ein bod ni'n adnabod hwn. Doedden ni ddim yn ei adnabod - ond cawsom y caniatad yr un fath!

Dweud dim....



North Wales is not exactly a centre of cultural activity. Geographically, we're a bit out on a limb with fewer venues, but it's there if you keep your eyes open and top up with trips further afield. I hugely enjoyed **Jeremy Hardy** at Galeri, Caernarfon, a few weeks ago,

The Observer "The New Review" 27 Tachwedd 2011

Delweddau yn y tir



© Copyright Steve Daniels and licensed for reuse under this Creative Commons Licence

Tynnwd hwn ar Ben y Gogarth Llandudno (sh7683). Graffiti cerrig yn well na rhai paent mae'n siwr. Beth mae nhw'n ei ddweud tybed?



A Welsh Dragon, constructed from red stones outlined in white stones. It's dimensions are 90' by 70'. It was constructed in 1999 as a Millenium monument, by Huw Jones from Cemmaes Road near Machynlleth. <http://www.hows.org.uk/personal/hillfigs/drag/drag.htm>

Diolch i Steve Roddick am dynnu sylw at rhain

O'r we: Lle mae'r awyren uwchben yn mynd?

Ydych chi wedi dyfalu erioed i ble mae'r awyren yna yn mynd - ac o lle y cychwynnodd. Wel dyfalwch ddim mwy - mae'r wefan yn dangos - yn fyw - hanes awyrennau ar draws byd, gan gynnwys yr un uwch eich pen RWAN!



<http://www.flightradar24.com/>



Bras yr Eira

Tynnais y llun hwn ar daith Cymdeithas Edward Llwyd i'r Parlwr Du ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 10, 2011. Gwelais dri Bras yr Eira a dyma lun o un ohonynt. Cyfeirnod grid: SJ124849

Eifion Griffiths

Bellach mae yna 14 o luniau bras yr eira yn Oriel Llên Natur, y rhan fwyaf wedi eu tynnu yn yr un ardal â hwn. Cyn bo hir - os nad rwan - mae yna gyfle i adarydd brwd ddadansoddi'r

lluniau er mwyn ateb y cwestiynau:

Ai ceiliogod ynteu ieir ydy breision eira Clwyd?

Ai adar hen ynteu ieuanc ydynt?

Mae 2012 yn flwyddyn y BioGyfri. Gwylwch ein gwefan am y newyddion diweddaraf am gyfri draenogod, ac am BioFlits mis Mehefin a 4ydd Cynhadledd Llen Natur ar y thema "Cyfri Bywyd Gwyllt"

Pia-pia-pia - no!



Pioden yn amlwg wedi blino mewn cae ym Montnewydd ger Caernarfon (Tachwedd 28, 2011) Llyn: Gareth Pritchard l'r rhai - fel y Golygydd! - sydd angen esboniad am deit! Gareth ar y llun hwn, ia, pia yw gair rhai ardaloedd am bioden (cf. Llwynypia). Beth am restru yma yr ardaloedd rydych chi'n arfer clywed yr enw pia Meddai Gareth: "ar gyrion Llandudno mae 'Bryn y Bia' ac wrth gwrs, mae rhai Saeson am ei alw'n 'Magpie Hill'! Yn anffodus iddyn nhw, mae'n debyg mai 'Bryn y Bwau' oedd yr enw gwreiddiol, a hynny i gofio am frwydr a ddigwyddodd ymhell, bell, yn ôl, o bosib' yn amser y Rhufeiniaid.....er hynny, mae yna ormod o lawer o biod o gwmpas!"

Cofio'r coffi ysgellaidd?



Ysgellog




Llawer yn tyfu yn y twyni tywod ger y West End, Pwllheli. Mae'r gwreiddiau wedi cael eu defnyddio yn lle coffi. Brith gof am y poteli Chicory! Haf 2011.

Harri Lloyd

(Y brand enwocaf o goffi ysgellog sydd ynghlwm wrth lun Harri)

Dyma ddsbarthiad yr ysgellog ym Mhrydain yn ôl yr Atlas Newydd*



A dyma'i statws ym Mhrydain yn ôl yr Atlas hwn: *Archaeophyte* (change -1.27 - [yn golygu ei fod yn prinhau]). *Though Cichorium intybus was formerly regarded as a native, at least in England and Wales, doubt is now cast on that status by most modern local Floras, which suggest it is always a relic of its former cultivation as a fodder crop. This species has declined as it is now rarely cultivated.*

A perennial herb of roadsides, field margins and rough grassland on a wide range of soils. Lowland.

* New Atlas of the British Flora